Apostles Peter and Paul gan El Greco (1541 – 1651)

Dyma'r union fath o lun sydd yn cael ei anwybyddu mewn oriel! Nid dyma waith gorau El Greco! Mae lluniau o hen saint yn britho pob oriel genedlaethol! Hawdd ddigon felly yw dim ond bâs-edrych ar y llun, a symud ymlaen. Ond, mae gwerth mewn oedi weithiau, a syllu gyda gofal ac amynedd ar lun. O wneud hynny gyda'r llun hwn, gwelwn fod gan El Greco rywbeth hynod gwerthfawr i ddweud, nid yn gymaint am Pedr a Paul, ond amdanom ni, trwy Pedr a Paul!

Pwy yw pwy? Mae El Greco yn dangos y gwahaniaeth rhyngddynt fel pobl. Gwelir Paul mewn coch. Mae'n edrych yn sylweddol academaidd; dyma ddyn ar dân! Mae egni a bwrlwm ei gymeriad yn amlwg. Ond hefyd, mae yna flinder, os nad tristwch. Dyma ddyn sydd yn llosgi deupen y gannwyll dros ei Arglwydd. Mae un llaw wedi gwasgu lawr ar yr ysgrythurau, yn bregethwrol bron, ar llall yn symud, cyfeirio, yn union fel pe bai yn trafod a rhesymu gyda ni a phawb sydd yn oedi i syllu ar y llun. Mae El Greco yn goleuo'r dwylo a'r wyneb, a hefyd mae'r clustiau yn amlwg, yn ein hatgoffa bod yn rhaid i bregethwr da fod yn wrandäwr da.

Calon y llun yw'r ddwy law - llaw Paul yn welw, llaw pregethwr yn mynegi pwynt pwysig, ac yna llaw Pedr. Llaw tywyll, tawel a llonydd, llaw wedi'i phlygu i mewn arni'i hun. Yn ei law arall, mae Pedr yn dal allwedd sydd, wrth gwrs, yn arwydd o'i awdurdod, ond mae'n dal yr allwedd yn ddiseremoni, heb rwysg na seremoni. O edrych i ddyfnder llygaid Pedr, gwelir y llygaid godidocaf mewn celf, am wn i! Mae Pedr yn ŵr tawel, diymhongar, gostyngedig. Mae El Greco yn cyflwyno'r ddau i ni, cydradd ydynt, mae'r naill ynghlwm wrth y llall. Y gyd-ddibyniaeth hon sydd yn cadw cydbwysedd y llun.

Credaf fod gan El Greco neges fawr ar ein cyfer: ym mhob Cristion, ym mhob traddodiad Cristnogol ac ym mhob eglwys leol, mae'r rhaid wrth dân ac angerdd Paul, a hefyd tawelwch a thynerwch Pedr.

Dylem nodi hefyd pwysigrwydd y drws sydd y tu nôl i Pedr. Drws ar agor ydyw. Dyma'r drws y daeth Pedr a Paul drwyddo i'r stafell hwn Ydi El Greco yn gwahodd ninnau i ddilyn Pedr a Paul allan i ganol bywyd, i osod ein hangerdd a thynerwch ar allor gwasanaeth i Grist? Tybed?

Hydref 2011